OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3065 (Cy.262) (C.120)

ANIFEILIAID, CYMRU

LLES ANIFEILIAID

Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - - 23 Hydref 2007

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 66(1) a 68(3)(b) a (4) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007; a

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

yrtyr "Deddf 1968" ("*the 1968 Act*") yw Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968(**2**); ac

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Cychwyn y darpariaethau

2. Daw'r darpariaethau canlynol yn Neddf 2006 i rym ar 24 Hydref 2007—

(a) adrannau 14 a 16; a

(b) adran 65 ac Atodlen 4, i'r graddau y maent yn ymwneud â—

(i) adrannau 2, 3, 6, 7 ac 8 o Ddeddf 1968; a

(ii) paragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**3**).

(**1**) 2006 p. 45 Mae'r swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**2**) 1968 p.34
(**3**) 1981 p.22